OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 561 (Cy. 85)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd Tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 31 a Chyffordd 32, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Chwefror 2012* |
| *Yn dod i rym* | *6 Mawrth 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei gyflawni arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mawrth 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd Tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 31 a Chyffordd 32, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 6 Mawrth 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55